

ASTUDIAETH ACHOS

ENW: STEFFAN EVANS

TEITL SWYDD: CIGYDD AC ARWEINYDD

LLINELL DAN HYFFORDDIANT

CYFLOGWR: DUNBIA

BETH MAE CIGYDD AC ARWEINYDD LLINELL DAN HYFFORDDIANT YN EI WNEUD?

Mae Arweinydd Llinell dan Hyfforddiant yn sicrhau bod y cynhyrchion yn llofnod esmwyth - gan wneud yn siŵr bod y cwmni'n cyrraedd safonau uchel mewn cigyddiaeth gan ddarparu cynhyrchion o safon uchel i gwsmeriaid. Mae cigydd yn sicrhau bod yr holl esgyrn yn lân ar ôl cael eu tynnu i gynhyrchu cynhyrchion sy'n cwrdd â gofynion y cwsmer.

SUT DDAETHOCH CHI I WNEUD Y SWYDD YMA?

Wedi i mi adael yr ysgol yn 16 oed, dechreuais fy ngwaith gyda Dunbia yn yr Adran Llocio; sef cam cyntaf y broses, pan dderbynnir ŵyn byw i'r safle. Yn dilyn ymlaen o hynny llwyddais i gwblhau rhaglen fewnol yr Academi Hyfforddiant mewn Cigyddiaeth, gan roi llwybr gyrfael i mi ar gyfer y dyfodol. Wrth i'm sgiliau a'm gwybodaeth ddatblygu rwy'n gweithio fel Arweinydd Llinell dan Hyfforddiant erbyn hyn a fydd, gobeithio, yn arwain at ddod yn Arweinydd Llinell yn y dyfodol ac efallai'n rheolwr.

BETH OEDD EICH CYFLOG CYCHWYNNOL?

Fy nghyflog cychwynnol oedd £6.31 yr awr - roedd hynny pan oeddwn wedi fy nghyflogi yn yr Adran Llocio.

ERS FAINT YDYCH CHI WEDI BOD YN GWNEUD EICH SWYDD?

Rwyf wedi cael fy nghyflogi gan Dunbia ers oddeutu 18 mis; yn yr Adran Llocio am 2 fis cyn ymuno â rhaglen yr Academi Hyfforddiant mewn Cigyddiaeth am 3 mis ac yna fy nghyflogi fel cigydd am flwyddyn ac yn olaf symudais ymlaen i fod yn arweinydd llinell dan hyfforddiant.

YDY EICH CYFLOG WEDI NEWID ERS HYNNY - AC OS NAD, YDYCH CHI'N RHAGWELD Y BYDD EICH CYFLOG YN Cynyddu?

Fy nghyflog presennol yw £8 yr awr, sy'n wych i rywun o fy oedran i. Rwy'n gobeithio gweld cynnydd pellach yn y dyfodol. Mae fy nghyflog yn cael ei adolygu wrth i mi wella ac ehangu fy sgiliau ymarferol a chymryd mwy o gyfrifoldeb.

gyrfaoedd
BLASUS
mewn bwyd a diod
CYMRU

Mae fy nghyflog yn cael ei adolygu wrth i mi wella ac ehangu fy sgiliau ymarferol a chymryd mwy o gyfrifoldeb.



CIGYDDIAETH

TASTYCAREERSWALES.ORG.UK